# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 29 Ebrill 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 2 Papurau i'w nodi (09:00) (Tudalennau 1 - 4)

**Sesiwn ymadawol: Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru : Llythyr gan David Sissling (27 Mawrth 2014)**
(Tudalennau 5 - 6)

### 3 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Trafod y wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru (09:05-09:15) (Tudalennau 7 - 8)

PAC(4)-11-14 (papur 1)

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (09:15)

Eitemau 5, 6, 7 ac 8

**5 Ariannu strwythurol yr UE: Papur briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru (09:15-09:30)** (Tudalennau 9 - 113)
PAC(4)-11-14 (papur 2)

**6 Arian cyhoeddus i Ganolfan Cywain - Y Bala: Papur briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru (09:30-09:45)** (Tudalennau 114 - 155)
PAC(4)-11-14 (papur 3)

**7 Gwasanaethau awyr o fewn Cymru, rhwng Caerdydd ac Ynys Môn: Trafod y wybodaeth bellach a'r camau nesaf. (09:45-10:00)** (Tudalennau 156 - 162)
PAC(4)-11-14 (papur 4)

**8 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod yr adroddiad drafft (10:00-11:00)** (Tudalennau 163 - 193)
PAC(4)-11-14 (papur 5)

# Eitem 2

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 - Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Ebrill 2014** |
| Amser: | **09.00 - 12.45** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500001_03_04_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Christine Chapman AC (yn lle Sandy Mewies AC)**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Staff y Pwyllgor: | **Fay Buckle (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor yr etholwyd William Graham i'r Pwyllgor ddydd Mawrth ond anfonodd ei ymddiheuriadau oherwydd gwrthdaro yn ei ddyddiadur.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Roedd Christine Chapman yn dirprwyo ar ei rhan.

1.4 Croesawodd y Cadeirydd Kate Kuring, rheolwr archwilio perfformiad o Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Victoria, Awstralia, sy'n ymweld â Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o daith i astudio swyddfeydd archwilio y DU.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Cyflogau Uwch-reolwyr: Llythyr gan Richard Tompkins, Cyfarwyddwr Cyflogwyr GIG Cymru (3 Mawrth 2014)

2.2 Cyflogau Uwch-reolwyr: Gwybodaeth ychwanegol gan Peter Smith, The Hay Group (Mawrth 2014)

2.3 Cyflogau Uwch-reolwyr: Papur diwygiedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Mawrth 2014)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cyflogau Uwch-reolwyr: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r camau nesaf

4.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ddau adroddiad Buddiannau'r Cyhoedd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ar 30 Ionawr 2014, ar Gyflogau a Phensiynau Uwch-swyddogion - Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyflogau a Phensiynau Uwch-swyddogion - Cyngor Sir Penfro.

4.2 Cytunodd yr Aelodau i gasglu rhagor o dystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad gan swyddogion monitro awdurdodau lleol, cynrychiolwyr y sectorau addysg bellach ac addysg uwch a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

## 5 Rheoli Cyflyrau Cronig: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

5.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar *Reoli Cyflyrau Cronig.*

5.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

5.3 Ar ôl i'r ymateb ddod i law, bydd y Pwyllgor yn trafod a ddylid cynnal ymchwiliad i'r mater.

## 6 Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru: Papur briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

6.1 Cafodd yr Aelodau bapur briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar *Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru.*

6.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

6.3 Ar ôl i'r ymateb ddod i law, bydd y Pwyllgor yn trafod a ddylid cynnal ymchwiliad i'r mater.

## 7 Cwrdd â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Y camau nesaf

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn gofyn am amserlen, os yw'n bosibl, mewn perthynas â rhaglen waith y Pwyllgor i wneud gwaith pellach ar y mater.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ddychwelyd at y mater hwn ar ôl i ymatebion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ddod i law.

## 8 Blaenraglen waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

8.1 Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith.

## 9 Gofal heb ei drefnu: Cytuno ar yr adroddiad terfynol

9.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyfeirio at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Cyflyrau Cronig*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Anfonir drafft pellach ar gyfer cytundeb terfynol drwy e-bost a nododd yr Aelodau y cyhoeddir yr adroddiad ar 24 Ebrill.

## 10 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ac awgrymodd nifer o argymhellion. Bydd yr Aelodau'n ail-drafod drafft pellach yn y cyfarfod nesaf.

**Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol • Prif Weithredwr, GIG Cymru**

**Department for Health and Social Services**
**Director General • Chief Executive, NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Chair
Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff

Our Ref: DS/SW/TLT

27 March 2014

Dear Darren

**PUBLIC ACCOUNTS COMMITTEE – Valedictory Session**

Following the Public Accounts Committee on 18 March, I agreed to send a you a note about a range of mental health issues.

Mental health is a key governmental priority, demonstrated by commitments in *Programme for Government*. Of particular significance is *Together For Mental Health,* the Welsh Government's 10-year mental health and wellbeing strategy to improve the lives of people using mental health services, their carers and their families. It aims to enhance the wellbeing and resilience of the wider population, as well as improving mental health services. It is the first all-age mental health strategy for Wales and takes a holistic, cross-government approach; clearly much that matters to people's mental well being – for example housing, employment or education – are beyond health and social care. At the heart of the Strategy is the Mental Health (Wales) Measure 2010, which places legal duties on Health Boards and Local Authorities to improve support for people with mental ill-health.

The main themes of *Together for Mental Health* are:

- Promoting mental wellbeing and, where possible, preventing mental health problems developing.
- Establishing a new partnership with the public, centred on:
    - Improving information on mental health
    - Increasing service user and carer involvement in relevant decisions.
    - Changing attitudes to mental health by tackling stigma and discrimination.



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 801182/1144
david.sissling@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

- Delivering a well designed, fully integrated network of care. This will be based on the recovery and enablement of service users in order to live as fulfilled and independent a life as possible.
- Addressing the range of factors in people's lives which can affect mental health and wellbeing through Care and Treatment Planning and joint-working across sectors.

The first annual report for *Together for Mental Health* was published in December and showed progress in services across Wales, while accepting there is further work to be done. We are about to publish an interim report on the progress of the Mental Health Measure, which will also show positive impacts on peoples care and access to services

Central to Together for Mental Health, is the recognition that identifying and addressing mental illness at an early age can ameliorate problems later in life. As such children and young people are at the heart of the Strategy. You are aware from my correspondence of 10 March that we are working with LHBs to improve CAMHS services throughout 2014 as a priority. CAMHS in Wales is provided by the four Health Boards – Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr, Cwm Taf and Hywel Dda. Planning and commissioning is carried out by WHSCC who fund Tier 4, high specialist services.

As you know the Children, Young People and Education Committee is currently conducting an enquiry into CAMHS and these issues will be explored further as part of that work.

I trust the above is helpful.

Yours sincerely

**DAVID SISSLING**

cc Mark Drakeford AM, Minister for Health and Social Services

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF-MD-0282-14

Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Ebrill 2014

Annwyl Darren,

**Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth sy'n gofyn am eglurhad pellach ar ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion 1, 4, 6 a 7 yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Ceir rhagor o wybodaeth isod.

**Argymhelliad 1**

Ni fwriedir i'r Offeryn Cefnogi Penderfyniadau (DST) newydd gael ei gymhwyso'n ôl-weithredol. Diben y DST yw cefnogi timau amlddisgyblaethol i benderfynu pwy sy'n gymwys am ofal iechyd parhaus. Nid yw, fodd bynnag, yn disodli asesiadau cyflawn a chynhwysfawr neu farn broffesiynol.

Er bod y DST diweddaraf wedi bod yn haws i'w ddefnyddio ac wedi cyflwyno'r dystiolaeth o angen yn gliriach, mae'r profion a gynhaliwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn dangos nad oedd **o reidrwydd neu fel arfer** yn newid y penderfyniadau a wnaed o ran pwy oedd yn gymwys am ofal iechyd parhaus. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag adborth cydweithwyr yn Lloegr, sy'n defnyddio'r fersiwn hon o'r DST ers mis Tachwedd 2012.

Er ei bod hi'n anodd asesu lefel bosibl yr hawliadau ôl-weithredol newydd a wneir gan unigolion sy'n teimlo, o bosibl, eu bod wedi bod o dan anfantais yn y gorffennol, rydym o'r farn y dylid ystyried hawliadau mewn perthynas â'r canllawiau a oedd yn eu lle ar yr adeg honno, a bod y DST newydd yn annhebygol o newid y canlyniad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford @cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%) Printed on 100% recycled paper*

**Argymhelliad 4**

Ar hyn o bryd, mae gohebiaeth safonol oddi wrth y Tîm Prosiect Cenedlaethol (a reolir gan Fwrdd Addysgu Iechyd Powys) yn rhoi gwybod i hawlwyr bod modd blaenoriaethu eu hawliad mewn amgylchiadau arbennig. Rydym, ar hyn o bryd, yn adolygu'r Daflen Wybodaeth a fydd yn cael ei rhoi i hawlwyr er mwyn paratoi ar gyfer cyhoeddi'r dyddiad cau newydd, sef 31 Gorffennaf 2014 (ar gyfer hawliadau a berthyn i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Gorffennaf 2013). Bydd y posibilrwydd hwn o flaenoriaethu hawliad mewn amgylchiadau arbennig yn cael ei gynnwys yn y daflen ddiwygiedig hon. Bydd y daflen yn cael ei rhoi i bob hawlydd.

**Argymhellion 6 a 7**

Rwy'n cadarnhau bod argymhellion y Pwyllgor wedi cael eu derbyn yn llwyr.

Yn unol â chylch gorchwyl y Prosiect Cenedlaethol (Powys), roedd yn ofynnol y byddai pob hawlydd yn cael gwybod am ganlyniad eu hawliad (hy a yw'n gymwys, am ba gyfnod a'r ad-daliad y bydd yn ei dderbyn) erbyn 30 Mehefin 2014.

Yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed hyd yma, disgwylir i bob hawliad gael ei adolygu erbyn diwedd mis Ebrill. Rhagwelir y bydd y cyfnod trafod (o ran cyfnod yr hawliad a'r swm i'w ad-dalu) ar gyfer y gyfran olaf o achosion yn parhau tan ddiwedd mis Mehefin. Yna cânt eu hystyried fel rhai sydd wedi'u cwblhau.

Dim ond pan fo'r hawlydd wedi derbyn ei ad-daliad oddi wrth y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol y caiff achosion eu hystyried fel rhai yr aethpwyd i'r afael â hwy yn llwyr. Mae fy ymateb blaenorol yn cydnabod y gallai'r 'cyfnod setlo' hwn ar gyfer rhai achosion hwyrach a ystyrir gan y Prosiect Cenedlaethol (Powys) bara hyd nes mis Medi 2014. Bydd diweddariadau yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mehefin a mis Medi 2014 i nodi'r cerrig milltir hyn yn ogystal â chyfran yr achosion yr aethpwyd i'r afael â hwy yn llwyr, yn unol â'r diffiniad uchod.

Daeth y cyfnod ymgynghori ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG i ben ar 13 Mawrth. Mae swyddogion, ar hyn o bryd, yn adolygu'r ymatebion a bwriedir cyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig ym mis Mehefin 2014.

Dymuniadau gorau,

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon